SHERMAN CYMRU

Theatr Iolo

Pecyn Adnoddau Dysgu

DRAMA/CHWARAE RÔL - ANTURIAETHAU YN YR EIRA

Er mwyn cael y plant i ganolbwyntio, gofynnwch iddynt orwedd ar y llawr a chau eu llygaid.

Gwrandewch yn ofalus iawn ar y synau gallwch eu clywed;
Synau sydd y tu allan i'r ystafell,
Synau sydd y tu mewn i'r ystafell,
Synau sydd yn eich corff eich hun.
Gwrandewch arnoch yn anadlu.
Does dim angen dweud beth yw'r synau.
Dim ond gwrando'n astud iawn.

Dychmygwch eich bod yn swatio'n glud ac yn gynnes yn y gwely.
Gwrandewch eto.
Gallwch glywed sŵn yr eira'n disgyn yn ddistaw.
Dychmygwch y plu eira'n troelli o'r awyr, gan orchuddio popeth â blanced wen o eira.

Ymestynnwch eich corff. Dewch allan o'r gwely'n araf bach. Dylyfwch eich gên.
Ewch at y ffenestr.
Agorwch y llenni.
Ac edrychwch.
Mae pob man dan eira.

Beth welwch chi?
Mae eira ar ganghennau'r coed.
Mae cath ddu'n cerdded ar yr eira gan adael ôl ei thraed.
Adar yn sboncio – yn chwilio am fwyd.
Edrychwch draw fan acw – mae rhywun wedi gadael briwsion bara i'r adar.
Pan mae'r gath wedi mynd mae'r adar yn hedfan i lawr i fwyta'r briwsion.
Mae rhywun wedi dod â rhaw ac yn dechrau clirio'r eira o'u llwybr.

Beth arall welwch chi?

Gadewch i ni fynd allan a chwarae yn yr eira.
Rhaid i ni wisgo'n gynnes - rhoi dillad dros ein pyjamas.
Gwisgwch eich siwmper, eich côt. Caewch bob botwm.
Sanau trwchus. Welingtons. Menig. Het. Sgarff.

'Nawr agorwch y drws a gadewch i ni fynd allan i'r eira.

Cerddwch yn ofalus iawn ar yr eira - un cam ar y tro.
Ceisiwch yn galed iawn i beidio â gadael ôl eich traed. Mae'n amhosib!
Codwch un goes i fyny a'i rhoi i lawr yn araf er mwyn gadael ôl troed.
Gadewch i'ch troed suddo'n ddwfn i'r eira.
Codwch eich troed allan o'r eira yn araf bach.
'Nawr, cymrwch gam mor fawr ag sy'n bosib er mwyn gadael ôl y droed arall.
Cerddwch yn araf drwy'r eira gan adael ôl eich traed.
Yna trowch ar eich sawdl a cherdded yn ôl gan gamu i'r union olion 'rydych wedi eu gwneud yn barod.

Cerddwch yn yr eira gan lusgo'ch traed i greu siapiau gwahanol:

cylch, sgwâr, triongl a siâp igam-ogam.

Tynnwch lun yn yr eira gan ddefnyddio'ch dwylo.
Neidiwch i fyny ac i lawr yn yr eira.
Gorweddwch yn yr eira gan ymestyn eich breichiau er mwyn creu angylion eira.
Chwaraewch 'gwnewch yr un fath â fi'.

Casglwch rywfaint o eira a gwneud pelen eira. Pa mor bell allwch chi ei thaflu?
Allwch chi ei thaflu mor bell â'r goeden?
Allwch chi ei thaflu'n uchel ac yna'i dal hi?
Allwch chi ei thaflu at rywun arall a gadael iddyn nhw ei dal hi?

Rhowch y belen eira ar eich croen. Teimlwch pa mor oer yw hi.
'Nawr rhowch hi ar eich gwar.
Gadewch i ddiferion o'r eira ddisgyn y tu mewn i'ch dillad.
'Rydych yn gwingo wrth i'r eira gyffwrdd croen eich cefn.

'Rydych yn dechrau oeri.
Rhaid i chi wiglo'ch bysedd i gynhesu.
Rhaid i chi ysgwyd a stampio'ch traed.
Neidiwch i fyny ac i lawr.
Rhaid i chi rwbio'ch corff i gyd.

Amser mynd i mewn.
Stampiwch yr eira oddi ar eich welingtons.
Tynnwch eich het a'ch côt a'ch menig a'ch sgarff.

Beth gewch chi i frecwast er mwyn cynhesu?

GÊM Y GOBENNYDD neu'r GLUSTOG

Pa gemau allwch chi eu chwarae gan ddefnyddio gobennydd neu glustog?

Mae pawb yn eistedd mewn cylch.
Mae rhywfaint o blant ar y tro'n ceisio cadw'r gobennydd/clustog ar eu pennau, heb ddefnyddio'u dwylo, a cherdded yn araf a gofalus yng nghanol y cylch.
Ceisiwch sefyll ar un goes.
Ceisiwch gerdded yn igam-ogam drwy eich gilydd.
Ceisiwch neidio ar un goes.
Allwch chi gadw'r gobennydd/clustog ar eich cefn/ysgwydd/penelin heb ddefnyddio'ch dwylo?

Gyda phartner allwch chi basio'r glustog/gobennydd o'ch pen chi i ben eich partner heb ei ollwng?

Ceisiwch daflu a dal y glustog/gobennydd.

Ceisiwch guddio y tu ôl i'r glustog/gobennydd.
Yn araf bach edrychwch dros dop, rownd ochr ac o dan y glustog/gobennydd.

O ble fyddwch chi'n edrych nesaf? Rhowch sypreis i ni.
Pa fath o wyneb fydd gennych chi?
Hapus? Trist? Ofnus? Brawychus? Blin? Chwilfrydig?

GOSODIAD CELF

Yn y ddrama mae Chwaer Fawr, Cariad Bach, Snit a Crwt yn defnyddio clustogau, cynfasau a blancedi i greu tirwedd o eira yn y tŷ. Maent yn defnyddio sanau gwyn fel peli eira.

Gwnewch dirwedd o eira yng nghornel eich ystafell ddosbarth, neu ar fwrdd.

Meddyliwch am gymaint o bethau gwyn â phosib y gallwch eu defnyddio:
mathau gwahanol o bapur gwyn
mathau gwahanol o ddefnyddiau gwyn
crys gwyn
tywel gwyn
plu gwyn
tâp gwyn
rhuban gwyn
gwlân gwyn
botymau gwyn
cardfwrdd gwyn
potiau iogwrt gwyn
doilis gwyn
platiau papur gwyn
gwlân cotwm
pentwr o reis gwyn

Efallai byddwch hefyd yn dymuno chwilio am bethau sgleiniog i'w defnyddio fel rhew – ffoil arian, mwclis, cadwyni.

A fyddai'n bosib i'r plant ddod â rhywbeth o'u cartrefi i'w ddefnyddio yn y dirwedd eira?

Edrychwch ar y pethau gwyn 'rydych wedi eu casglu.
Gan grychu a gwasgu'r papur, a thaenu'r defnyddiau dros wahanol bethau er mwyn amrywio'r uchder,
Pa fath o siapiau allwch chi eu creu?

Gadewch i bawb yn ei dro osod rhywbeth gwyn yn y man y byddwch yn creu'r byd o eira.

Edrychwch yn ofalus iawn ar yr hyn 'rydych wedi ei wneud.

Ydych chi'n fodlon?
Ydych chi eisiau newid unrhywbeth?

Gwnewch blentyn eira i roi yn y dirwedd wen.

PYPED PLENTYN YR EIRA

Crychwch a gwasgwch bapur gwyn i wneud siâp pêl.

Daliwch y bel ac edrych arni'n ofalus iawn.

Allwch chi weld siâp wyneb yn y crychau?
Allwch chi weld llygaid neu drwyn neu geg yn y crychau?
Tynnwch lun llygaid, trwyn a cheg ar y bêl.

Symudwch y pen yn araf iawn.
Edrychwch o gwmpas gan edrych yn fanwl ar yr ystafell ddosbarth.

Defnyddiwch fwy o bapur wedi'i grychu a thâp gludiog i wneud corff.

Symudwch y Plentyn Eira yn araf dros ben.
Dychmygwch ei fod yn symud drwy rywbeth trwchus iawn fel triog.

Gadewch i'r Plentyn Eira gwrdd â Phlentyn Eira arall.

Defnyddiwch gerddoriaeth.

Gadewch i'r Plentyn Eira ddawnsio a hedfan drwy'r awyr.

CREU STORÏAU EIRA.

Y storïau eira byrraf yn y byd.

Mae un person yn cychwyn.

"Un tro 'roedd yna bluen eira..."

Mae rhywun arall yn gorffen y stori.

"A glaniodd ar dafod rhyw blentyn! Y DIWEDD!"

"Un tro dechreuodd yr eira ddisgyn."
"Hyd nes ei fod mor ddwfn â pherson! Y DIWEDD!"

"Un tro 'roedd yna ddyn eira."
"A dechreuodd neidio i fyny ac i lawr! Y DIWEDD!"

"Un tro 'roedd yna fachgen."
"A gadawodd ôl ei draed sawl gwaith yn yr eira! Y DIWEDD!"

"Un tro 'roedd yna gi."
"A dechreuodd fwyta'r eira! Y DIWEDD!"

CREU STORÏAU

Ar ddiwedd y ddrama mae Plentyn yr Eira yn gwneud i'r gwely hedfan dros y byd o eira. Dychmygwch eich gwely chi'n hedfan.

Beth am greu stori am y noson y dechreuodd eich gwely chi hedfan.
Pa anturiaethau gawsoch chi?

Ble mae Plentyn yr Eira yn byw?
Sut gartref sydd gan Plentyn yr Eira tybed? Disgrifiwch ble mae'n byw.

Pan gwrddais i â Phlentyn yr Eira
Mae Plentyn yr Eira'n chwilfrydig dros ben; mae'n anwesu gwallt pobl; mae'n cyffwrdd â thrwynau; mae'n dringo ar ben pethau; mae'n ceisio chwarae'r soddgrwth; mae'n hedfan o gwmpas.

Dychmygwch eich bod yn cwrdd â Phlentyn yr Eira. Beth sy'n digwydd? Pa gemau 'rydych yn eu chwarae?

CERDD EIRA

Mae'r plant yn deffro ganol nos ac yn edrych allan drwy'r ffenest.
Maent yn disgrifio'r hyn maent yn ei weld, a'r hyn maent yn ei ddychmygu.

Môr o wyn.
Gwyn rhewllyd.
Pelydrau'n disgleirio.
Eira ar y dyffrynnoedd ac ar y mynyddoedd.
Coed rhewllyd.
Llynnoedd rhewllyd.
Y byd i gyd yn wyn.
Plu eira'n disgyn o'r awyr.
Daliwch bluen eira ar eich tafod.
Plu eira'n chwyrlio.
Yn troelli.
Yn troi.
Gwenyn gwyn yn suo.
Gwlad aeafol hudolus.

Maent yn creu tirwedd eira yn eu llofft ac yn esgus cerdded yn yr eira.

Crensian. Crensian. Crensian. Crensian. Crensian.
Llithren llithro llithrig.
Angylion Eira.
Rhewi. Rhewllyd.
Traed 'di rhewi.
Bysedd traed 'di rhewi.
Dwylo'di rhewi.
Trwyn 'di rhewi.
Trwyn yn rhedeg.
Sanau gwlyb.
Peli eira. Peli eira.

Cyfansoddwch eich cerdd eich hun am eira. Yn eich tro, dywedwch air neu gymal byr.

TEIMLADAU/EMOSIYNAU

Mae Chwaer Fawr, Cariad Bach, Snit, Crwt a Plentyn yr Eira yn profi nifer o deimladau gwahanol yn ystod yr amser maent yn ei dreulio gyda'i gilydd.

Gwnewch restr o deimladau/emosiynau.

HAPUS TRIST OFNUS CYFFROUS CHWILFRYDIG DIFLAS DIG BALCH

PWDLYD BLIN CHWITHIG SYNDOD FFIEIDD-DRA SWIL NERFUS

Defnyddiwch eich corff a'ch wyneb i ddangos y gwahanol emosiynau.

Gofynnwch i'r plant wneud yr un fath.

Ceisiwch adnabod pa emosiwn sy'n cael ei gyfleu.

Dewiswch un emosiwn o'r rhestr e.e. trist

Allwch chi feddwl am un foment o'r ddrama pan oedd un o'r cymeriadau yn teimlo fel hyn?

'Roedd Crwt yn drist pan ddinistriodd Snit y Plentyn Eira 'roedd ef wedi'i wneud.

Sut deimlad yw bod yn drist neu'n ofidus?

Allwch chi feddwl am adeg pan 'roeddech chi'n drist neu'n ofidus?

Allwch chi feddwl am sefyllfa fyddai'n gwneud i athro/athrawes neu dad-cu/mam-gu neu frawd/chwaer neu fam/tad neu lysfam/llystad deimlo'n drist?

Oedd unrhyw un arall yn y ddrama'n drist?
'Roedd Snit yn drist pan sylweddolodd yr hyn 'roedd hi wedi ei wneud a phawb yn ei hanwybyddu.

Oedd unrhyw un yn ddig?
'Roedd Cariad Bachyn ddig pan ddinistriodd Snit y Plentyn Eira 'roedd Crwt wedi ei wneud.

Beth sy'n eich gwneud chi'n ddig?

Beth fyddai'n gwneud athro/athrawes neu frawd/chwaer neu dad-cu/mam-gu neu fam/tad neu lysfam/llystad yn ddig?

Beth oedd Crwt, Cariad Bach, Chwaer Fawr a Snit yn teimlo pan wnaethant gwrdd â Phlentyn yr Eira?
Nerfus? Ofnus? Wedi synnu? Cyffrous? Hapus? Swil? Chwilfrydig? Chwithig?

Beth oedd Plentyn yr Eira'n teimlo pan gwrddodd â Crwt, Cariad Bach, Chwaer Fawr a Snit?

Oedd unrhyw un yn teimlo'n falch?
'Roedd Crwt yn teimlo'n falch iawn o'r Plentyn Eira 'roedd wedi ei wneud. 'Roedd Chwaer Fawr yn teimlo'n falch pan 'roedd hi'n adrodd y stori, a phan oedd hi'n chwarae'r soddgrwth.

Allwch chi feddwl am sefyllfa ble 'roeddech chi'n teimlo'n falch?

Oedd unrhyw un yn teimlo'n flin neu'n chwithig?
'Roedd Snit yn teimlo'n flin ac yn chwithig pan sylweddolodd ei bod wedi difetha popeth ac wedi digio'r lleill.